# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 28 Medi 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(18)

**1. Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 1 a 5 eu grwpio. Cafodd cwestiynau 6 ac 11 eu grwpio.

14.18
**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth**

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Trosglwyddwyd cwestiwn 4 i'w ateb yn ysgrifenedig gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy. Trosglwyddwyd cwestiwn 8 i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Prif Weinidog.

15.05
**PWYNT O DREFN**

Cododd Jeff Cuthbert Bwynt o Drefn ynghylch araith Lindsay Whittle lle cyfeiriodd at dref yn ei "etholaeth" yn hytrach na'i "ranbarth" – gan gofio mai ef yw'r Aelod rhanbarthol dros Ddwyrain De Cymru yn hytrach na'r Aelod etholaeth. Ymddiheurodd Lindsay Whittle a thynnodd y sylw yn ei ôl. Atgoffodd y Dirprwy Lywydd yr Aelodau unwaith eto am nodyn y Llywydd ynghylch sut y dylai Aelodau gyfarch ei gilydd, fel sydd wedi'i nodi yn Rheol Sefydlog 1.10 a'r 'Cod ar Wahanol Rolau a Chyfrifoldebau Aelodau Etholaeth ac Aelodau Rhanbarthol'. Nododd y Dirprwy Lywydd y maddeuir i Aelodau sy'n camddisgrifio eu rolau yn anfwriadol i raddau. Fodd bynnag, ni chaniateir dryswch bwriadol, nac unrhyw ymgais i drin y rheol fel un dibwys.

**15.07**
**3. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4810 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i

a) Cydnabod potensial busnesau bach a chanolig i dyfu economi Cymru;

b) Creu'r amodau angenrheidiol ar gyfer mwy o weithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru; ac

c) Cynnig cymorth sy'n diwallu anghenion busnesau.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 5 | 57 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**16.04**
**4. Dadl Plaid Cymru**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4812 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1) Yn credu bod Cymru'n cael ei gwasanaethu'n dda gan ei rhwydwaith o Ysbytai Cyffredinol Dosbarth; ac

2) Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud datganiad clir na fydd yn caniatáu i Fyrddau Iechyd Lleol ganoli gwasanaethau oddi wrth Ysbytai Cyffredinol Dosbarth.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 45 | 57 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ym mhwynt 2, dileu "wneud datganiad clir na fydd yn caniatáu i Fyrddau Iechyd Lleol ganoli gwasanaethau oddi wrth Ysbytai Cyffredinol Dosbarth" ac yn ei le rhoi "gefnogi Byrddau Iechyd Lleol wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau i gynllunio a darparu gwasanaethau mewn modd priodol."

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 33 | 0 | 23 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gan fod gwelliant 1 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

**Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:**

Yn credu bod cleifion yn cael eu gwasanaethu orau gan wasanaethau a ddarperir mor agos â phosibl at gartrefi'r cleifion, ac sy'n ddiogel yn glinigol, gan ddefnyddio rhwydwaith o ysbytai cyffredinol dosbarth, ysbytai cymunedol a chanolfannau rhagoriaeth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 2 | 0 | 57 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

**Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:**

Yn credu y dylai'r Fforwm Clinigol Cenedlaethol, pan gaiff ei sefydlu, ystyried anghenion Ysbytai Cyffredinol Dosbarth wrth aildrefnu'r GIG yn y dyfodol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 6 | 57 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1) Yn credu bod Cymru'n cael ei gwasanaethu'n dda gan ei rhwydwaith o Ysbytai Cyffredinol Dosbarth; ac

2) Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi Byrddau Iechyd Lleol wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau i gynllunio a darparu gwasanaethau mewn modd priodol.

3) Yn credu bod cleifion yn cael eu gwasanaethu orau gan wasanaethau a ddarperir mor agos â phosibl at gartrefi'r cleifion, ac sy'n ddiogel yn glinigol, gan ddefnyddio rhwydwaith o ysbytai cyffredinol dosbarth, ysbytai cymunedol a chanolfannau rhagoriaeth.

4) Yn credu y dylai'r Fforwm Clinigol Cenedlaethol, pan gaiff ei sefydlu, ystyried anghenion Ysbytai Cyffredinol Dosbarth wrth aildrefnu'r GIG yn y dyfodol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 0 | 23 | 57 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**17.07**
**5. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4811 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei Chronfa Swyddi Cymru yn canolbwyntio ar gyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth yn y sector preifat.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 4 | 0 | 52 | 56 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Yn lle "yn canolbwyntio ar gyfleoedd", rhoi "yn cynnwys cyfleoedd"

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 17 | 57 |

**Derbyniwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu 'yn y sector preifat' a rhoi yn ei le 'yn unol â'r Rhaglen Adnewyddu'r Economi'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 17 | 57 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod cyflogaeth yn y sector preifat yng Nghymru wedi gweld gostyngiad o 3.7% rhwng mis Mehefin 2010 a mis Mehefin 2011, y gostyngiad mwyaf yn y DU.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda chyflogwyr lleol a darparwyr hyfforddiant i ganfod cyfleoedd drwy Gronfa Swyddi Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 57 | 0 | 0 | 57 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddileu ardrethi busnes ar gyfer busnesau bach yng Nghymru sydd â gwerth ardrethol o £12,000 neu lai i helpu i gynyddu effaith Cronfa Swyddi Cymru a helpu i greu swyddi parhaol yn y sector preifat.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 45 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei Chronfa Swyddi Cymru yn cynnwys cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth yn unol â'r Rhaglen Adnewyddu'r Economi.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda chyflogwyr lleol a darparwyr hyfforddiant i ganfod cyfleoedd drwy Gronfa Swyddi Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 5 | 0 | 57 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**18.02**
**Cyfnod pleidleisio**

**18..09**
**6. Dadl Fer**

**NDM4809 Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):**

Yr Anabledd Cudd – Materion Clyw yng Nghymru

Daeth y cyfarfod i ben am 18:36

**Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 on Dydd Mawrth, 4 Hydref 2011**